

Adroddiad dadansoddi'r ymgynghoriad ar ail-ddilysu gweithwyr fferyllol proffesiynol: yr hyn a wnaethom

1. Cefndir polisi

- 1.1. Rhwng Ebrill a Gorffennaf 2017, fe ymgynghorom ar fframwaith newydd arfaethedig ar gyfer ail-ddilysu gweithwyr fferyllol proffesiynol, y mae disgwyl iddo gael ei gyflwyno'n raddol rhwng 2018 a 2020. Nod y fframwaith newydd yw helpu fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf, a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ynghylch hynny.
- 1.2. Crewyd y cynigion hyn yn sgil rhaglen ddatblygu dair blynedd a chyfnod hirach o ymchwil i'r dulliau y gallem eu defnyddio i roi sicrwydd pellach bod sail wirioneddol i ymddiriedaeth pobl mewn gweithwyr fferyllol proffesiynol. Roedd mecanweithiau, megis y broses adnewyddu aelodaeth flynyddol a'r cynllun DPP, eisoes ar waith i roi sicrwydd. Roedd yn amlwg, fodd bynnag, y gallem gyfoethogi ein dulliau gweithio mewn ffordd a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd ac adlewyrchu'r newidiadau yn y disgwyliadau sydd ar reoleiddwyr a gweithwyr fferyllol proffesiynol o du'r llywodraeth, y cyhoedd, cyflogwyr a'r proffesiwn.
- 1.3. Rhoddwyd y cynigion yr ymgynghorwyd arnynt ar brawf yn ystod y rhaglen ddatblygu, drwy gyfrwng gwaith ymchwil, profi, peilota a gwerthuso. Yr ymgynghoriad oedd un o'r camau terfynol yn y broses o ymglymu gyda phobl y byddai'r cynigion yn effeithio arnynt, er mwyn deall eu heffaith cyn eu gweithredu.

2. Ein cynigion yn gryno

- 2.1. Cynigiom newid nifer o bethau yn y ffordd yr ydym yn gweithio a'r hyn rydyn ni'n gofyn i weithwyr fferyllol proffesiynol ei wneud er mwyn gallu parhau ar ein cofrestr a rhoi sicrwydd bod sail wirioneddol i ymddiriedaeth pobl mewn gweithwyr fferyllol proffesiynol.
- 2.2. Dyma'r newidiadau a gafodd eu cynnig gennym:
 - lleihau a symleiddio anghenion cofnodi DPP
 - cyflwyno trafodaeth rhwng cymheiriad
 - cyflwyno cofnod adfyfyriol
 - symleiddio'r safonau a'r canllawiau
 - gofyn i gael cofnodion wedi eu cyflwyno bob blwyddyn ar yr un adeg ag y mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gwneud eu datganiadau ar gyfer adnewyddu eu haelodaeth gofrestredig
 - gwella'r ffordd y mae cofnodion yn cael eu hadolygu a'r adborth a roddir arnynt i aelodau

- 2.3. Yn ogystal â'r newidiadau yr ymgynghorwyd arnynt, tynnom hefyd sylw at newidiadau yn ein dulliau gweithio. Nod y newidiadau hyn oedd gwneud y broses o gofnodi a chyflwyno cofnodion i ni yn haws. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys:
- creu teclyn cofnodi integredig ar-lein er mwyn i weithwyr fferyllol proffesiynol allu defnyddio un system i fewngofnodi i'w cyfrif gyda'r CFfC i gofnodi ac i adnewyddu aelodaeth
 - lleihau'r angen am 'gofnodi deuol' drwy weithio gyda sefydliadau sydd â chanddynt eu portffolios dysgu a datblygu eu hunain – megis cyrff proffesiynol, darparwyr hyfforddiant ac addysg a chyflogwyr – er mwyn gallu trosglwyddo cofnodion yn hawdd i declyn cofnodi'r CFfC
 - Cyflwyno cymorth awtomataidd o fewn y teclyn ar-lein i sicrhau nad yw camgymeriadau bychain wrth gofnodi yn arwain at gamau adfer
 - Cyflwyno ffyrdd haws o gofnodi a darparu tystiolaeth am amgylchiadau a allai rwystro unigolion rhag gallu cyflwyno cofnodion neu gwblhau cofnodion ar adeg adnewyddu

3. Ynghylch yr ymgynghoriad

1.1. Trosolwg

- 1.1.1. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am ddeuddeg wythnos, yn cychwyn ar 24 Ebrill ac yn dod i ben ar 17 Gorffennaf . Er mwyn sicrhau ein bod yn clywed gan gynifer â phosibl o unigolion a sefydliadau:
- Roedd arolwg ar-lein ar gael i'w gwblhau gan unigolion a sefydliadau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roeddem hefyd yn derbyn ymatebion drwy'r post ac e-bost.
 - Trefnom nifer o ddigwyddiadau wedi eu hanelu at weithwyr fferyllol proffesiynol, defnyddwyr gwasanaethau fferyllol, sefydliadau a phartïon eraill â diddordeb.
 - Cyhoeddwyd pecyn o adnoddau i alluogi sefydliadau i ddsbarthu gwybodaeth am yr ymgynghoriad ymhlith eu haelodau, gan gynnwys datganiad i'r wasg a chyflwyniad.
 - Cydweithiwyd gyda'r cyfryngau i godi proffil yr ymgynghoriad.
- 1.1.2. Er mwyn bod yn dryloyw, mae rhestr o'r sefydliadau a ymglymodd â'r ymgynghoriad drwy'r arolwg ar-lein, dros e-bost ac mewn cyfarfodydd un wrth un wedi ei chynnwys yn Atodiad 1.

1.2. Yr arolwg ar-lein

- 1.2.1. Roedd yr arolwg ar-lein yn holi cwestiynau am:
- Y fframwaith arfaethedig ar gyfer ail-ddilysu gweithwyr fferyllol proffesiynol
 - effaith y newidiadau ar weithwyr fferyllol proffesiynol, cyflogwyr a defnyddwyr gwasanaethau fferyllol.
- 1.2.2. Derbyniom **1,858** o ymatebion i'r arolwg, gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt wedi dod drwy'r arolwg ar-lein, a'r gweddill drwy'r post neu dros e-bost gan ddefnyddio'r ddogfen ymgynghori. Yn ogystal â'r rhain, derbyniom nifer fechan o ymatebion gan sefydliadau yn ysgrifennu'n fwy cyffredinol ynghylch eu barn.
- 1.2.3. O'r rhai a gyflwynodd ymatebion ysgrifenedig, roedd **1,785** yn unigolion ac **80** yn sefydliadau.

1.3. Digwyddiadau rhanddeiliaid

- 1.3.1. Defnyddiwyd y cwestiynau o'r arolwg ar-lein hefyd yn sail i'r trafodaethau yn ein digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid, ac fe'n galluogwyd felly i glywed barn gwahanol bobl a'i chynnwys yn y dadansoddiad ar yr ymgynghoriad.
- Cynhaliom bedwar digwyddiad ar gyfer rhanddeiliaid yn Llundain, Manceinion, Caerdydd a Chaeredin a siaradom mewn 32 o ddigwyddiadau a chynadleddau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Roedd mynychwyr yn cynnwys fferyllwyr, technegwyr fferyllol, pobl yn gweithio ym maes hyfforddiant ac addysg, cyflogwyr, fferyllwyr cyn-gofrestru a chynrychiolwyr cyrff proffesiynol a masnach.
 - Trefnom bedwar grŵp ffocws gyda chleifion, a gynhaliwyd yn Llundain, Manceinion, Caerdydd a Chaeredin. Cynhaliwyd hefyd gyfarfodydd un wrth un gyda thri o sefydliadau cleifion na fu'n bosibl iddynt fynychu'r digwyddiadau eraill.
 - Cynhaliom webinar ar-lein.
- 1.3.2. Cyfrannodd **2,450** o unigolion a sefydliadau at y digwyddiadau hyn.

1.4. Y cyfryngau

- 1.4.1. Cafodd yr ymgynghoriad ail-ddilysu ei hyrwyddo drwy gyfweiliadau, datganiadau i'r wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

1.5. Grŵp ymgynghorol

- 1.5.1. Yn ogystal ag ymgynghori'n ffurfiol ar y cynigion, rydym hefyd wedi cynnwys rhanddeiliaid drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynigion. Roedd hyn ar ffurf grŵp ymgynghorol, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Kirkwood o Kirkhope, oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector fferyllol ac o blith y cyhoedd. Fe lywiodd y grŵp ymgynghorol y gwaith o ymchwilio, profi, peilota a gwerthuso'r cynigion. Yn ystod yr ymgynghoriad, mynychodd aelodau o'r grŵp ymgynghorol ein digwyddiadau rhanddeiliaid ac, mewn llawer achos, rhoesant hefyd adborth i'r ymgynghoriad fel unigolion neu drwy eu sefydliadau.
- 1.5.2. Mae manylion ynghylch aelodau'r grŵp ymgynghorol ar ein gwefan <https://www.pharmacyregulation.org/advisory-group>

4. Ein dulliau dadansoddi ac adrodd

4.1. Trosolwg

- 4.1.1. Mae pob ymateb a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys nodiadau o'r digwyddiadau i rhanddeiliaid, wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu ein dadansoddiad. Mae ein dull thematig yn ein galluogi i gynrychioli'r ystod eang o safbwyntiau a gyflwynwyd, boed hynny gan unigolion neu sefydliadau, a boed mewn ysgrifen neu ar lafar mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau.
- 4.1.2. Roedd arolwg hunan-ddewis yn rhan bwysig o'r ymgynghoriad hwn. Fel gyda phob ymgynghoriad, rydym yn disgwyl bod unigolion a grwpiau sy'n ystyried bod y cynigion yn effeithio fwyaf arny'n nhw, neu sydd â barn gref ar y mater, yn fwy tebygol o fod wedi ymateb.
- 4.1.3. Mae cwestiynau'r ymgynghoriad wedi eu rhestru yn Atodiad 2.

4.2. Dadansoddiad meintiol

- 4.2.1. Roedd yr arolwg ar-lein yn cynnwys nifer o gwestiynau meintiol, megis cwestiynau ydw/nac ydw ac ati ac opsiynau graddio. Mae'r ymatebion i gyd wedi eu coladu a'u dadansoddi, gan gynnwys y rhai ddaeth i law drwy'r post neu dros e-bost yn defnyddio'r ddogfen ymgynghori. Mae'r rhai a rannodd farn mewn dull mwy cyffredinol wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad ansoddol yn unig.
- 4.2.2. Rydym yn ymwybodol y gallai'r ymatebion gan sefydliadau gynrychioli nifer uchel o unigolion, felly mae'r rhain wedi eu hadrodd ar wahân yn ein dadansoddiad meintiol.
- 4.2.3. Cafwyd nifer fechan (dan 30) o ymatebion lluosog gan yr un unigolion. Gwelwyd hyn drwy baru cyfeiriadau e-bost ac enwau. Yn yr achosion hyn, ymateb mwyaf diweddar yr ymatebwr sydd wedi ei gynnwys yn y dadansoddiad.
- 4.2.4. Mae'r tablau sydd yn yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r nifer o ymatebwyr a ddewisodd wahanol atebion yn yr arolwg ar-lein. Mae'r adroddiad yn dilyn yr un drefn ag y cyflwynwyd y cwestiynau yn yr arolwg.
- 4.2.5. Nid yw cwestiynau na chafodd eu hateb wedi eu cynnwys. Mae celloedd heb ddata wedi eu nodi gan gyplysnod.

4.3. Dadansoddiad ansoddol

- 4.3.1. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad ansoddol ar yr holl ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, gan gynnwys ymatebion i'r arolwg ar-lein gan unigolion a sefydliadau, ymatebion drwy e-bost a'r post a nodiadau o ddigwyddiadau rhanddeiliaid.
- 4.3.2. Datblygwyd fframwaith codio i adnabod gwahanol bynciau a meysydd patrymau, a syniadau o fewn yr ymatebion. Defnyddiwyd y fframwaith hwn i roi strwythur i'n dadansoddiad. Adeiladwyd y fframwaith o'r gwaelod drwy broses iteraidd yn adnabod yr hyn oedd yn dod i'r amlwg o'r data, yn hytrach na phennu fframwaith a benderfynwyd o flaen llaw.
- 4.3.3. Diben y dadansoddiad oedd adnabod themâu cyffredin ymhlith y rhai oedd yn rhan o'r gweithgareddau ymgynghori, yn hytrach na dadansoddi'r gwahaniaethau rhwng grwpiau penodol neu is-grwpiau ymhlith yr ymatebwyr.
- 4.3.4. Mae'r term 'ymatebwyr', a ddefnyddir gydol yr adroddiad, yn cyfeirio at bawb a gwblhaodd arolwg yr ymgynghoriad a phawb a fynychodd ein digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid. Mae'n cynnwys unigolion a sefydliadau.

Dadansoddi'r ymatebion a'r gweithgareddau ymgynghori: yr hyn a glywom

5. Barn ar y broses ail-ddilysu a gynigiwyd

Roedd cwestiynau craidd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar farn yr ymatebwyr ar y cynigion. Gofynnwyd am ymatebion i gwestiynau'n ymwneud â'r gwahanol gamau yn y broses a'r newidiadau oedd yn cael eu cynnig. Roedd y cwestiynau hyn yn benagored, er mwyn i ni allu cael adborth manwl ac ystod eang o safbwyntiau. Mae'r adran hon yn dadansoddi'r themâu a ddaeth i'r amlwg.

5.1. Adborth cyffredinol ar y cynigion

- 5.1.1. Derbyniwyd nifer uchel o ymatebion oedd yn cynnwys adborth amrywiol iawn. Roedd y themâu a ddaeth i'r amlwg yn gyson rhwng yr arolwg ar-lein a'r digwyddiadau ymglymu a'r ymatebion gan unigolion a sefydliadau.
- 5.1.2. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion yn gyffredinol ac roedd eu sylwadau yn gadarnhaol iawn yn gyffredinol. Ystyriwyd y dull newydd yn un mwy gwydn a bod mwy o strwythur iddo. Dywedwyd bod y dull newydd yn welliant ar y system bresennol, oedd yn cael ei hystyried yn ymarferiad ticio blychau. Cyfeiriodd ymatebwyr at yr anghenion newydd fel rhai oedd yn fwy addas at eu diben ac yn rhai oedd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i aelodau o ran cwblhau'r broses ail-ddilysu. At ei gilydd, roedd cefnogaeth i'r syniad o alinio'r Safonau ar gyfer Gweithwyr Fferyllol Proffesiynol a chwmpas ymarfer aelodau unigol. Roedd ymatebwyr yn cytuno y byddai'r anghenion newydd yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaol gyda'r Safonau ac y byddent yn darparu sicrwydd bod aelodau'n parhau i ddiweddarau eu gwybodaeth a'u sgiliau. Roedd cydnabyddiaeth y byddai ychwanegu'r elfen o drafod gyda chymheiriaid a'r cofnod adfyfyril, ynghyd â gwell mecanweithiau adolygu ac adborth yn fuddiol o ran datblygiad proffesiynol.
- 5.1.3. Roedd cytundeb bod y safonau a'r canllawiau wedi eu symleiddio a bod y dull newydd yn gyffredinol yn fwy clir a hawdd ei ddeall gan weithwyr fferyllol proffesiynol, cyflogwyr a'r cyhoedd. Ystyriwyd bod y dull cliriach a mwy uniongyrchol, gyda phwyslais ar adfyfrio, yn llai haearnidd na'r anghenion presennol ac felly'n fwy ystyrlon a buddiol i aelodau.
- 5.1.4. Mynegwyd rhai pryderon am y cynigion, fodd bynnag, a chododd ymatebwyr nifer o gwestiynau am y broses ail-ddilysu newydd. Daeth gwrthwynebiad cyffredinol gan rai oedd yn fodlon â'r system bresennol a rhai oedd o'r farn y byddai gorfod cofnodi a chyflwyno gwybodaeth DPP yn fwrn ychwanegol. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni am effaith y newidiadau arnyn nhw, yn enwedig rhai mewn swyddi nad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â chleifion, locymau ac aelodau hŷn. Roedd gweddill y pryderon a chwestiynau'n canolbwyntio ar elfennau neu gamau penodol o'r broses, ac ystyrir rhain yn fanwl yn y sylwadaeth isod.

5.2. Anghenion DPP newydd

- 5.2.1. Roedd unigolion a sefydliadau yn gadarnhaol iawn ynghylch y cynigion i leihau a symleiddio'r broses gofnodi DPP. Rhoddwyd croeso i'r lleihad mewn nifer o gofnodion o naw y flwyddyn i bedwar y flwyddyn, gan y byddai llai o gofnodion yn golygu bod ansawdd DPP yn bwysicach na nifer, ac y byddai'n caniatáu mwy o amser i aelodau adfyfrio ar eu gweithgareddau DPP. Roedd cytundeb bod yr anghenion newydd yn sicrhau ffocws i weithgareddau DPP fyddai'n berthnasol i rôl unigolion, yn wahanol i'r drefn bresennol a ddisgrifiwyd fel ymarferiad ticio blychau oedd yn canolbwyntio ar broses yn hytrach na gwerth y gweithgareddau. Noddodd llawer o ymatebwyr hefyd bod yr agwedd adfyfiriol a bwysleisir yn y fframwaith newydd yn bwysig, yn enwedig o ran effaith ar gleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Roedd cydnabyddiaeth bod adfyfrio fel hyn ar ymarfer yn helpu i sicrhau budd i ddefnyddwyr.
- 5.2.2. Roedd peth ansicrwydd ynghylch cyflwyno gweithgareddau 'heb eu cynllunio' ac ystyr y termau 'wedi eu cynllunio' a 'heb eu cynllunio'. Roedd rhai ymatebwyr am weld y gwahaniaeth rhwng y mathau hyn o DPP wedi eu hegluro'n gliriach. Yn yr un modd, roedd rhai yn cwestiynu'r angen i wahaniaethu rhwng y ddau, gan fod yr anghenion adrodd ac adfyfrio yr un fath beth bynnag.

5.3. Trafod gyda chymheiriaid

- 5.3.1. O'r newidiadau arfaethedig, cyflwyno'r elfen drafod gyda chymheiriaid enynnodd yr ymateb mwyaf gan unigolion a sefydliadau. Roedd gan nifer uchel ohonynt gwestiynau neu bryderon am y syniad. Ymhlith y rhai oedd yn cefnogi'r syniad, roedd teimlad y byddai cael mewnbwn gan weithiwr proffesiynol arall yn cryfhau DPP. Byddai hyn yn galluogi gweithwyr fferyllol i rannu gwybodaeth a barn yn haws. Ystyriwyd hefyd ei fod yn rhoi mwy o sicrwydd i ddefnyddwyr drwy ddangos bod pobl eraill, yn ogystal â'r aelod unigol, yn rhan o'r broses. Noddodd llawer bod trafod gyda chymheiriaid yn weithgaredd dysgu a datblygu gwerthfawr fyddai'n annod pobl i adfyfrio ar eu hymarfer eu hunain ac adnabod meysydd datblygu na fyddai, efallai, yn amlwg i'r unigolyn dan sylw fel arall. Roedd cefnogaeth hefyd i drafodaethau gyda chymheiriaid am y byddent yn helpu gweithwyr i wella safonau o fewn gwahanol feysydd arbenigol gan y byddent yn trafod gyda gweithwyr oedd yn rhannu'r un arbenigedd. Roedd y syniad y byddai trafodaeth o'r fath yn atal gweithwyr rhag teimlo'n ynysig yn thema gyffredin, ac y byddai'n hybu cydweithio a dysgu.
- 5.3.2. Un o'r materion a gododd amlaf o ran trafodaethau gyda chymheiriaid oedd dewis ac argaeledd cymheiriaid. Roedd ymatebwyr yn gofidio y gallai rhai gweithwyr fferyllol proffesiynol ei chael hi'n heriol dod o hyd i berson addas y gallai drafod ei ymarfer proffesiynol â hi neu ef. Nodwyd y gallai hyn fod yn arbennig o wir i weithwyr mewn ardaloedd anghysbell, perchnogion fferyllfeydd cymunedol bychain a locymau fydd yn gweithio gyda nifer fawr o gymheiriaid gwahanol. I lawer, roedd anesmwythyd a phryder na allent ddod o hyd i unigolyn y gallent ymddiried ynddo neu ynnddi ac y gallent gael trafodaeth onest ac agored ag ef neu hi. Roedd nifer o ymatebwyr yn gweld cyswllt rhwng hyn a gwahanol feysydd arbenigol, a'r anhawster posibl o ddod o hyd i unigolyn fyddai'n meddu ar ddigon o brofiad ac arbenigedd yn y maes hwnnw. Mynegwyd pryder hefyd gan weithwyr fferyllol proffesiynol sy'n gweithio mewn sectorau eraill, neu sydd ar egwyl gyrfa neu'n ddi-waith, y byddai dod o hyd i gymar trafod yn anodd.
- 5.3.3. Gofynnodd llawer o ymatebwyr am gyfarwyddyd pellach ynghylch pwy fyddai'n cael ei ystyried yn gymar trafod addas, a fyddai angen i'r cymar fod yn weithiwr fferyllol proffesiynol neu a allai fod yna elod arall o'r tîm gofal iechyd. Roedd galw ar i'r CFFC helpu aelodau i ddod o hyd i gymar trafod, yn enwedig y rhai sy'n gweithio mewn rolau mwy ynysig. Roedd rhai ymatebwyr yn ystyried bod y gallu i gynnal y

drafodaeth gyda chymar mewn dulliau gwahanol, dros Skype neu'r ffôn er enghraifft, yn gysur. Ystyriwyd y byddai hyn yn helpu i oresgyn yr anhawster posibl i ddod o hyd i gymar trafod. Roedd nifer o sefydliadau o'r farn y gallent helpu fferyllwyr i ddod o hyd i gymar trafod neu i gynnig cyfleusterau i gynnal trafodaethau gyda chymheiriaid mewn digwyddiadau a gweithdai.

- 5.3.4. Mater a godwyd gan nifer is o ymatebwyr oedd hwnnw'n ymwneud â dewis adolygydd a gwrthrychedd. Mae canllawiau'r CFFC yn argymhell peidio â defnyddio rhywun sy'n ffrind neu'n aelod o deulu fel cymar trafod. Galwodd nifer o sefydliadau ac unigolion am i hyn fod yn orfodol, er mwyn sicrhau gwrthrychedd a dileu unrhyw ragfarn. Yn yr un modd, roedd rhai yn cwestiynu defnyddio'r un cymar trafod dros nifer o flynyddoedd gan y gallai hyn hefyd leihau gwrthrychedd.
- 5.3.5. Mae cyswllt rhwng hyn a gofid ehangach a godwyd gan lawer o ymatebwyr ynghylch dycnwch y draffodaeth a gynigiwyd rhwng cymheiriaid fel mecanwaith ar gyfer rhoi sicrwydd ynghylch addasrwydd parhaus i ymarfer. Y prif ofid oedd nad oes gofyn i gynnwys y draffodaeth gael ei gyflwyno i'r CFFC, ac mae cadarnhad bod y trafod wedi digwydd yn unig sydd ei angen. O ganlyniad, nid oes adolygiad na sicrwydd ynghylch ansawdd y draffodaeth. Roedd rhai ymatebwyr felly yn amau diben a dilysrwydd y drefn arfaethedig. Roedd llawer yn teimlo y gallai dyfu'n ymarferiad ticio'r blwch yn hytrach nag yn draffodaeth werthfawr ynghylch ymarfer proffesiynol. Roedd rhai hefyd yn cwestiynu'r rhesymeg dros ganiatáu trafodaeth sy'n digwydd ar hap ac roeddent yn poeni na fyddai hyn mor fuddiol â thraffodaeth oedd wedi ei chynllunio.
- 5.3.6. Mynegodd ymatebwyr hefyd ofid ynghylch ansawdd a chysondeb y cymheiriaid, ac awgrymwyd y dylai hyfforddiant, canllawiau a chymorth fod ar gael. Awgrymwyd hefyd y dylai bod rheolaeth dynnach dros y rhai a all weithredu fel cymheiriaid, gan gynnwys mecanweithiau i sicrhau bod ganddynt wybodaeth a phrofiad addas ar gyfer y rôl. Byddai hyn yn gwella ansawdd, cysondeb a gwerth y trafodaethau gyda chymheiriaid.
- 5.3.7. Gofynnodd rhai ymatebwyr am ragor o eglurder ar yr hyn y dylid ei gynnwys mewn trafodaeth gyda chymar a sut i gynnal y trafodaethau hyn. Gofynnwyd am enghreifftiau da ac enghreifftiau gwael ac awgrymodd rhaid y gellid defnyddio clipiau fideo i ddangos sut i gynnal trafodaeth dda. Roedd ymatebwyr o'r farn bod diffyg eglurder ynghylch yr hyn oedd yn ddisgwyliedig o'r trafodaethau hyn ac, er bod hyn yn ymarferiad gwerthfawr, bod ei werth yn dibynnu ar ansawdd y trafod. Gan na fyddai'r broses adolygu yn ystyried ansawdd y trafod, roedd teimlad y gallai'r buddion amrywio o fan i fan o fewn y proffesiwn.
- 5.3.8. Roedd awgrymiadau ynghylch ffyrdd o wella'r draffodaeth gyda chymheiriaid yn cynnwys gosod anghenraid bod cynnwys y trafod yn cael ei gofnodi'n drylwyr ac yn gywir, bod gofyn iddi gael ei chynnal mewn fformat sefydlog gydag adolygwyr sydd wedi eu hyfforddi a disodli'r draffodaeth gydag asesiad cymheiriaid â sicrwydd ansawdd neu system asesu 360 gan gymheiriaid.
- 5.3.9. Mater arall a gododd oedd dylanwad cyflogwyr ar draffodaethau cymheiriaid. Roedd pryder y gallai cyflogwyr ddefnyddio'r trafodaethau hyn at ddibenion rheoli perfformiad a hyd yn oed ddwrddio neu ddisgyblu staff, ac na fyddai'r trafodaethau felly yn creu gofod diogel i draffod ymarfer proffesiynol yn agored ac yn onest a dysgu gan gamgymeriadau. Roedd pryder hefyd y byddai cyflogwyr yn penderfynu pwy oedd y cymheiriaid trafod a beth fyddai cynnwys y draffodaeth ac y gellid eu defnyddio i gyflawni amcanion lleol. Pwysleisiwyd bod angen i'r trafodaethau fod yn rhai cefnogol a phroffesiynol yn canolbwyntio ar ddysgu ac adfyfrio. Cafwyd adborth cymysg ynghylch y cyswllt rhwng trafodaethau cymheiriaid a gwerthusiadau mewn swydd, gyda rhai ymatebwyr o'r farn y gellid dyblygu gwaith ac yn

gofyn i'r drafodaeth gyda chymar gael ei halinio gyda systemau gwerthuso mewnol sydd eisoes yn bodoli. Roedd eraill yn teimlo'n gryf na ddylai fod cyswllt rhwng y trafodaethau gyda chymheiriaid a gwerthusiadau, ac nad rheolwr llinell ddylai weithredu fel cymar, er mwyn creu gwir gyfleoedd i adfyfrio mewn modd agored ac ystyrlon. Awgrymwyd y dylai'r canllawiau nodi nad oes rhaid i'r cymar trafod fod o'r un sefydliad ac y dylid annog hyn yn weithredol.

- 5.3.10. Pryder mwy cyffredinol a godwyd ynghylch y drafodaeth gyda chymar trafod oedd na fyddai aelodau bellach yn gallu cwblhau eu gweithgareddau DPP i gyd ar eu pennau eu hunain ac yn eu hamser eu hunain. Ystyriwyd bod trafod gyda chymar yn symud DPP i'r parth gwaith ac roedd llawer yn poeni am yr amser fyddai ei angen i gwblhau'r gweithgareddau. O ran adnoddau, roedd teimlad hefyd y byddai'r drefn hon yn bwyta i mewn i amser unigolion eraill ac y gallai hyn effeithio'n andwyol ar unigolion a chyflogwyr.
- 5.3.11. Roedd cyfrinachedd, gwrthdaro buddiannau a diogelu data yn themâu eraill a ddaeth i'r golwg yn y sylwadau. Roedd llawer o aelodau yn pryderu am eu gallu i drafod eu gwaith yn agored gyda chymar trafod oherwydd cyfrinachedd cleifion neu gytundebau dim datgelu. Roedd sylwadau hefyd ynghylch sut y byddai gwrthdaro buddiannau yn cael ei reoli wrth ddewis cymheiriaid trafod. Roedd nifer fechan yn gofidio ynghylch y CFFC yn storio manylion cyswllt personol cymheiriaid, sut y byddai eu diogelwch yn cael ei warchod ac am faint o amser y byddai'r wybodaeth yn cael ei chadw. Codwyd ambell gwestiwn arall hefyd yn ystod yr ymgynghoriad yn ymwneud ag atebolrwydd cyfreithiol, proffesiynol a phersonol, gyda rhai ymatebwyr yn gofyn a allai cymar gael ei ddwyn yn gyfrifol dros ymddygiad aelod y trafodwyd ag ef neu hi.

5.4. Cofnod adfyfiriol

- 5.4.1. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn croesawu cyflwyno cofnod adfyfiriol ac yn cydnabod gwerth adfyfrio wrth ddysgu a datblygu. Ystyriwyd bod hyn yn welliant ar y drefn bresennol nad yw'n annog adfyfrio. Roedd teimlad bod y cynnig yn elfen bwysig o'r ymdrech i wella deilliannau'r sawl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol. Roedd alinio'r cofnod adfyfiriol â'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cael ei gefnogi, ac y byddai hyn yn fecanwaith ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth o'r safonau, a'u deall a'u cymhwyso at ymarfer unigol. Roedd sefydliadau yn arbennig o awyddus i weld y dull hwn o annog aelodau i ailymgyfarwyddo â'r safonau yn gyson yn cael ei weithredu. O ganolbwyntio ar y safonau, roedd cytundeb cyffredinol bod yr anghenion ar gyfer y cofnod adfyfiriol yn eglur ac yn berthnasol.
- 5.4.2. Ymateb cymysg, fodd bynnag, oedd i'r cynnig mai'r CFFC fyddai'n dewis y safon i adfyfrio arni. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid rhoi'r grym yn nwylo gweithwyr fferyllol proffesiynol i ddewis y safon, er mwyn sicrhau ei bod yn berthnasol i'w rôl a chyfrifoldebau unigol. Gwnaeth llawer o ymatebwyr gais i gael rhagor o eglurder ynghylch pryd a sut y byddai aelodau yn cael eu hysbysu ynghylch pa safon i adfyfrio arni bob blwyddyn. Gofynnwyd hefyd am ragor o gyfarwyddyd ynghylch yr hyn roedd y CFFC yn ei ddisgwyl gan gofnod adfyfiriol, ei hyd, cynnwys a fformat, er enghraifft. Gwnaeth llawer o ymatebwyr gais am enghreifftiau o gofnod 'da' a chofnod 'gwael' i'w helpu i gyflwyno cofnodion fyddai'n cydymffurfio â'r disgwyliadau.
- 5.4.3. Roedd gofid y byddai rhai aelodau'n ei chael hi'n anodd adfyfrio gan nad yw hyn yn ddull maen nhw wedi arfer ag ef, gydag aelodau hyn a thechnegwyr fferyllol yn cael eu crybwyll amlaf yn hyn o beth.

Gofynnwyd am gymorth ychwanegol ar gyfer y grwpiau hyn neu unrhyw unigolion nad oedd wedi arfer ag adfyfrio yn y modd hwn.

- 5.4.4. Roedd nifer fechan o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r syniad o gofnodi'n adfyfriol, gan fod cofnodion fel y rhain yn oddrychol o ran eu natur a'u gwerth, felly, yn yr ymdrech i wella ymarfer yn cael ei gwestiynu.

5.5. Cyflwyno cofnodion i'r CFfC

- 5.5.1. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno cofnodion bob blwyddyn yn hytrach na phob 5 mlynedd. Roedd barn gyffredinol bod y system bresennol, er ei bod yn gofyn i aelodau wneud gweithgareddau DPP drwy gydol eu gyrfa, yn hybu'r arfer o gofnodi gweithgareddau, ac adfyfrio arnynt, ddim ond pan fo galwad yn dod i'w cyflwyno. Byddai cyflwyno llai yn amlach yn osgoi sefyllfa lle rhoir DPP o'r neilltu, a byddai'n gwneud y gwaith o reoli llwyth gwaith yn fwy ymarferol. Byddai hyn hefyd yn fodd o wreiddio DPP ac adfyfrio mewn ymarfer dydd i ddydd a byddai'n sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw'n amserol. Roedd llawer hefyd yn cytuno y byddai cofnodi'n rheolaidd yn dystiolaeth bod aelodau yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y dull newydd yn lleihau ac yn symleiddio'r gwaith o gofnodi gweithgareddau DPP. Roedd llawer o gefnogaeth i'r syniad o integreiddio gyda theclynnau cofnodi cyrff eraill, megis rhai proffesiynol, addysg a hyfforddiant a chyrrff cyflogi, gan y byddai hyn yn lleihau cofnodi dwbl. Roedd llawer yn croesawu'r symud tuag at storfa ganolog ar gyfer gweithgareddau DPP a chofrestru ac adnewyddu.
- 5.5.2. Tra bo llawer yn cytuno y byddai platfform newydd i gofnodi DPP yn haws ac yn fwy uniongyrchol, fe godwyd rhai pryderon hefyd. Roedd rhai'n gofidio am fecanweithiau a fyddai'n sylwi ar lèn-ladrad, ac roeddent am weld meddalwedd wedi ei chynnwys a fyddai'n gallu sylwi ar enghreifftiau o hyn. Roedd cwestiynau hefyd ynghylch sut i atal hen gofnodion rhag cael eu hailgyflwyno, gan mai dim ond am 18 mis y byddai'r system newydd yn cadw cofnodion. Roedd nifer o ymatebwyr yn pryderu bod storfa ganolog ar gyfer holl weithgareddau DPP yn cael ei cholli ac y byddai hyn yn ei gwneud yn anos iddynt gyrchu a choladu hen gofnodion. Awgrymwyd y dylid cadw cofnodion am gyfnod hirach na 18 mis, y dylent fod yn hawdd eu Cyrchu, ac y dylai fod dull o gadw pob cofnod DPP, nid y rhai a ddewiswyd i'w cyflwyno i'r CFfC yn unig. Roedd pryderon mwy cyffredinol ynghylch cadw data, am ba hyd, ac ymhlygiadau cyfrinachedd a diogelu data.
- 5.5.3. Pwysleisiodd ymatebwyr bod angen i'r system gofnodi newydd fod yn hawdd ei defnyddio ac ar gael i'w chrychu'n hawdd o bob teclyn neu ddyfais. Awgrymwyd y gallai'r CFfC ddatblygu App i wella hygyrchedd. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch pa declynnau fyddai wedi eu hintegreiddio i leihau cofnodi dwbl ac am ragor o gyfarwyddyd ynghylch sut y gallai'r teclynnau hynny gael eu haddasu. Roedd ceisiadau hefyd i integreiddio'r platfform cofnodi gyda portffolio'r RPS ac awgrymwyd y byddai trafodaethau pellach gyda chyrrff proffesiynol a chyflogwyr yn gallu dileu ailadrodd cofnodion.
- 5.5.4. Dywedodd llawer o ymatebwyr eu bod wedi drysu ynghylch y broses gyflwyno ar adeg adnewyddu a sut y byddai'n gweithio'n ymarferol. Y gofid pennaf oedd ynghylch pryd yn ystod y broses adnewyddu aelodaeth y byddai angen cyflwyno cofnodion. Nododd llawer o ymatebwyr y gallai cyflwyno pob cofnod ar yr un adeg â'r broses adnewyddu aelodaeth fod yn feichus ac roedd llawer heb sylweddoli y gellid cyflwyno cofnodion gydol y flwyddyn. Gofynnwyd am gyfarwyddyd pellach ynghylch amserlen cyflwyno cofnodion. Roedd ceisiadau hefyd am hysbysiadau atgoffa rheolaidd ynghylch dyddiadau cyflwyno ac am amserlen ddigon hyblyg i beidio ag effeithio ar lwyth gwaith. Roedd ymatebwyr hefyd yn poeni am

yr amser y byddai ei angen ar y dechrau i ddod i arfer â'r system newydd ac roedd cytundeb y byddai angen cymorth a chefnogaeth yn ystod y cyfnod pontio.

- 5.5.5. Roedd nifer fechan o ymatebwyr yn anghytuno gyda'r cynnig i symud tuag at gyflwyno cofnodion yn flynyddol gan y byddai'n rhy feichus ac yn anghydnaws gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n cael eu hail-ddilysu bob 3 neu 5 mlynedd.

5.6. Adolygu cofnodion

- 5.6.1. Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno y byddai'r newidiadau arfaethedig yn gwella'r ffordd y mae cofnodion yn cael eu hadolygu a'u bod yn cynnig proses wytnach. Ystyriwyd y dull presennol o adolygu cofnodion yn ymarferiad ticio blychau sy'n sicrhau bod aelodau wedi dilyn y broses gyflwyno DPP yn hytrach na bod yn adolygiad ansoddol ar y gweithgareddau eu hunain. Rhoddwyd croeso felly i'r cynnig i graffu'n fanylach ar y cofnodion a dywedwyd bod hyn yn cyflwyno gwytnwch a sicrwydd ansawdd i'r broses. Roedd y cynnig i ddefnyddio dau adolygydd yn cael ei gefnogi gan ei fod yn sicrhau gwrthrychedd a chysondeb yn y broses adolygu.
- 5.6.2. Cymysg oedd yr ymateb i'r cynnig i gyflwyno adolygydd lleig i'r broses. Roedd llawer yn ystyried hyn yn ddull da o sicrhau cydbwysedd rhwng barn y proffesiwn a barn cleifion a'r cyhoedd. Ymhlith y rhai oedd yn cefnogi, roedd cefnogaeth gref i'r gred y byddai'r adolygydd lleig yn cynrychioli anghenion cleifion ac yn sicrhau y byddai anghenion defnyddwyr yn ganolog i'r broses. Roedd teimlad y byddai hyn yn rhoi sicrwydd ehangach nag y byddai cynnwys y proffesiwn yn unig yn y broses adolygu. Roedd y rhai oedd yn gwrthwynebu'r syniad o gynnwys adolygydd lleig yn cwestiynu gallu'r adolygydd lleig i ddeall a gwneud sylwadau ar ymarfer proffesiynol aelodau, yn enwedig yr elfennau mwyaf technegol a dyrys. Ystyriwyd bod arbenigedd proffesiynol yn allweddol i allu barnu'n rhesymegol a darparu adborth ystyrion ar gynnwys, cywirdeb a pherthnasedd gweithgareddau DPP. Roedd teimlad mai penderfyniad tocenistaidd oedd cynnwys adolygydd lleig.
- 5.6.3. Roedd adborth mwy cyffredinol hefyd ar y broses o ddewis adolygwyr a sicrhau bod ganddynt arbenigedd digonol i allu adolygu cofnodion, yn enwedig rhai aelodau mewn meysydd arbenigol neu swyddi uchel. Roedd nifer fechan o ymatebwyr yn dadlau mai dim ond fferyllwyr ddylai gael eu defnyddio fel adolygwyr. Roedd llawer o ymatebwyr yn pwysleisio mor bwysig oedd sicrhau sylfaen eang o brofiad o fewn y gronfa adolygwyr a hyfforddi adolygwyr yn drylwyr er mwyn sicrhau cysondeb. Ystyriwyd hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer adolygwyr lleig, a galwodd rhai am i'r meini prawf dewis a'r prosesau dethol fod yn fwy eglur ac i rôl a chyfrifoldebau'r ddau fath o adolygydd fod yn fyw tryloyw. Rhaid hefyd fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chyfrinachedd a gwrthdaro buddiannau wrth recriwtio a dethol adolygwyr.
- 5.6.4. Er nad oedd yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, gan y cafwyd ymgynghoriad arno yn 2016, roedd llawer o unigolion yn croesawu dull targedig ar hap o adolygu cofnodion, ac yn teimlo bod hyn yn well na galw am gofnodion pob aelod bob 5 mlynedd. Roedd y rhai oedd yn cefnogi'r newid hwn yn fodlon bod y cynnig yn rhoi digon o sicrwydd ansawdd. Fodd bynnag, cafwyd peth gwrthwynebiad ac ansicrwydd ynghylch y dull sampl newydd. Roedd y dull sampl 2.5% yn rhy isel yn ôl rhai gan y gallai olygu na fyddai rhai aelodau yn cael eu gweithgareddau wedi eu hadolygu am hyd at 40 mlynedd. Awgrymodd rhai y dylid cynyddu maint y sampl i fynd i'r afael â hyn. Gofynnodd ymatebwyr eraill am gyfarwyddyd ynghylch sut y byddai risgiau'n cael eu hasesu a'u targedu, ac am ragor o eglurder ynghylch sut y

byddai'r samplo ar hap yn digwydd. Awgrymodd nifer fechan y dylai fod mwy o asesu risg wrth alw am gofnodion ac y dylid eithrio aelodau risg-isel o'r broses adolygu.

5.7. Rhoi adborth i aelodau cofrestredig

- 5.7.1. Roedd cefnogaeth sylweddol i'r cynnig i gyflwyno adborth wedi ei deilwra ar gyfer datblygiad, yn hytrach na'r sgôr cyfartalog a roddir ar hyn o bryd. Roedd cydnabyddiaeth, yn gyffredinol, y byddai'r cynigion yn arwain at adborth o safon uwch ac y byddai'n fwy ystyrlon ac adeiladol. Roedd teimlad hefyd y byddai'n helpu gweithwyr fferyllol wrth ddatblygu'n broffesiynol ac yn eu gwaith beunyddiol. Roedd cytundeb hefyd y byddai darparu adborth cyffredinol i aelodau nad ydyn nhw'n cael eu dewis ar hap i gyflwyno cofnodion yn gam cadarnhaol tuag at godi safonau ledled y proffesiwn. Fodd bynnag, roedd rhai'n teimlo na fyddai hyn mor fuddiol ag adborth wedi ei lunio'n benodol ar gyfer unigolion a nododd rhai aelodau y byddent am gael eu cynnwys yn y sampl adolygu.
- 5.7.2. Nodwyd gan rai bod gwerth adborth yn dibynnu ar ei ansawdd ac ar fod yn amserol. Dywedwyd bod angen iddo fod yn fanwl cyn iddo allu effeithio ar ddysgu a datblygu. Gofynnodd rhai am ragor o gyfarwyddyd ynghylch fformat yr adborth cyn iddyn nhw allu asesu a fyddai'n ddefnyddiol. Gofynnodd eraill am amserlen fanylach ar gyfer y broses adolygu ac adborth. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedden nhw'n llwyr ddeall pa fath o adborth y byddent yn ei dderbyn pe na baent yn cael eu dewis ar hap i'w hadolygu, a bod angen rhagor o eglurder ar hyn.
- 5.7.3. Roedd nifer o sylwadau ynghylch y broses adfer pe bai aelodau'n methu â chyflawni'n ddigonol. Nodwyd bod diffyg eglurder ar hyn a sut y byddai aelodau'n cael gwybod pe na baent wedi llwyddo i gyrraedd y nod. Gofynnwyd am ganllawiau ar hyn. Dywedodd nifer fechan o ymatebwyr bod angen gweithio mewn partneriaeth gyda chyflogwyr i sicrhau bod aelodau'n cael eu helpu i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau, ac awgrymwyd hefyd y dylid tynnu sylw at rwydweithiau cymorth.

5.8. Goblygiadau ar gyfer adnoddau

- 5.8.1. Cafwyd ymateb cymysg ynglŷn â'r goblygiadau ar gyfer adnoddau yn sgil y cynigion. Roedd llawer yn ystyried y cynigion fel proses fwy uniongyrchol wedi ei hybu gan welliannau technolegol. Roedd teimlad bod lleihau'r nifer o gofnodion DPP wedi creu lle ar gyfer y drafodaeth rhwng cymheiriaid a'r cofnod adfyfyriol, ac y byddai hyn oll yn lleihau'r baich ar weithwyr fferyllol proffesiynol. Byddai'r proses gofnodi symlach hefyd yn caniatáu amser i aelodau ganolbwyntio ar eu gwaith a'u cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth.
- 5.8.2. Nid dyma oedd barn pawb, fodd bynnag. Roedd rhai yn ofni y byddai angen mwy o amser i gwblhau'r gofynion newydd, ac y byddai'n faich ychwanegol ar weithwyr sydd eisoes yn brysur. Gwnaeth llawer o ymatebwyr sylw ar yr amser ychwanegol y byddai ei angen i gwblhau'r tair elfen o'r broses ail-ddilysu, a'u cofnodi'n flynyddol. Nododd rhai ymatebwyr nad oedden nhw'n llwyr ddeall sut y byddai lleihau cofnodi dwbl yn lleihau'r baich biwrocraidd gan y byddai gofyn trosglwyddo cofnodion o un system i'r llall beth bynnag. Nododd rhai hefyd y byddai angen amser i ddod i arfer â'r system newydd, a'i defnyddio.
- 5.8.3. Nododd rhai ymatebwyr eu bod yn gorfod cwblhau'r anghenion DPP presennol yn eu hamser eu hunain oherwydd pwysau gwaith, ac yn sgil diffyg cefnogaeth gan eu cyflogwyr mewn rhai achosion. Nododd llawer o ymatebwyr, felly, bod angen amser gwarchodedig o fewn yr amserlen waith i gofnodi a chyflwyno cofnodion. Gwnaed sawl cais i nodi amser gwarchodedig yn orfodol gan gyflogwyr.

- 5.8.4. Roedd pryder arbennig ynghylch cyflwyno'r drafodaeth gyda chymheiriaid, gan y byddai angen i honno ddigwydd o fewn amser gwaith ac y byddai'n golygu defnyddio amser unigolyn arall, ac felly byddai'n ychwanegu at lwyth gwaith dau berson. Holwyd cwestiynau am y gost i gyflogwyr a pherchnogion fferyllfeydd gan y byddai'n bosibl y byddai angen staff ychwanegol i gyflenwi dros bobl pan fo'r trafodaethau hyn yn digwydd.
- 5.8.5. Dywedodd ymatebwyr y byddai'r cynigion yn golygu mwy o gost adnoddau i'r CFFC gan y byddai angen dau adolygydd, a holwyd a fyddai hyn yn arwain at godi ffioedd cofrestru. Roedd pryder hefyd a fyddai digon o adnoddau yn eu lle i ddelio gyda chyfnodau prysur fel mis Rhagfyr, adeg adnewyddu aelodaeth nifer fawr o aelodau. Yn gyffredinol, roedd teimlad bod y cynigion wedi eu costio'n effeithiol ac y byddent yn arwain at arbedion i'r CFFC yn sgil y dull samplo ar hap.

5.9. Pontio

- 5.9.1. Cafwyd llawer o sylwadau ynghylch y broses bontio i'r trefniadau ail-ddilysu newydd. Roedd cryn gefnogaeth i'r syniad o'u cyflwyno fesul dipyn, gan ganiatáu felly i aelodau addasu ac ymgyfarwyddo gyda'r system newydd. Roedd cytundeb bod yr amserlenni a gynigiwyd yn ddigonol i alluogi pontio esmwyth ac i roi trefniadau cymorth ar waith. Nododd llawer o ymatebwyr, fodd bynnag, eu bod yn pryderu am anawsterau mabwysiadu'r system newydd a'r goblygiadau amser o wneud hynny. Holodd llawer pryd y byddai'r newidiadau'n digwydd a gofynnwyd am ragor o eglurder ynghylch yr amserlen a'r broses bontio. Roedd pryder penodol ynghylch yr hyn fyddai'n digwydd i hen gofnodion ac a fyddai cyfuniad o hen gofnodion a chofnodion newydd yn iawn i'w cyflwyno yn y flwyddyn gyntaf. Gwnaed sylwadau penodol ynghylch cyfathrebu'r newidiadau a phwysleisiwyd bod angen cyfathrebu clir a hwrwyddo'r drefn newydd ymhlith holl weithwyr fferyllol proffesiynol Prydain.
- 5.9.2. Yn gysylltiedig â'r adborth ar y trefniadau pontio, roedd ceisiadau am ganllawiau a chymorth cyffredinol. Gwnaeth nifer o ymatebwyr gais am hyfforddiant a chymorth a chanllawiau ar gyfer rhai a allai ei chael hi'n anodd cyflawni'r anghenion newydd neu a fyddai angen cymorth yn ystod y cyfnod pontio. Nodwyd y gallai'r CFFC gynnal gweithdai a sesiynau briffio i gefnogi aelodau.

6. Sicrwydd

6.1. Rhoi sicrwydd ar addasrwydd i ymarfer

- 6.1.1. Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent o'r farn y bydd y newidiadau'n helpu i gefnogi aelodau yn eu gwaith ac yn rhoi sicrwydd bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn parhau'n addas i ymarfer.

	Unigolion	%	Sefydliadau	%
Ydw	1224	70%	60	86%
Nac ydw	535	30%	10	14%
Cyfanswm ymatebion	1759		70	

- 6.1.2. Roedd mwyafrif mawr o blith yr unigolion (70%) a'r sefydliadau (86%) yn credu y bydd y newidiadau'n helpu aelodau wrth ymarfer ac yn rhoi sicrwydd bod aelodau'n parhau i fod yn addas i ymarfer. Un o'r rhesymau pennaf a nodwyd am hyn oedd bod y drefn newydd yn fwy gwydn na'r drefn bresennol yn sgil

cyflwyno'r drafodaeth gyda chymheiriaid a'r cofnod adfyfyriol. Roedd ymatebwyr yn cytuno bod defnyddio amrywiaeth o ddulliau yn creu sicrwydd ehangach ynghylch addasrwydd aelodau i ymarfer. Yn ogystal, roedd teimlad bod symud tuag at gyflwyno cofnodion yn flynyddol yn rhoi mwy o sicrwydd bod gwybodaeth a sgiliau'n cael eu diweddarau'n gyson, yn hytrach na phob pum mlynedd. Yn yr un modd, roedd system lle roedd pob gweithiwr fferyllol proffesiynol yn cyflwyno cofnodion, yn hytrach na'r rhai a ddewisir yn unig, yn rhoi mwy o sicrwydd ar hyd a lled y sector. Ystyriwyd bod y pwyslais ar ymarfer adfyfyriol a chysylltu ymarfer â'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol yn ddull mwy gwerthfawr ac ystyrlon o weithredu DPP na'r system bresennol sy'n canolbwyntio mwy ar y broses gyflwyno, ac y byddai hyn yn cefnogi a gwella ymarfer.

- 6.1.3. O ran y nifer fechan o ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn uchod, codwyd nifer o faterion, gan gynnwys gwytnwch y broses. Mae'r broses yn dibynnu ar hunan-ddatganiadau ac roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynau a fyddai rhai aelodau yn ffugio neu gor-ddweud ynghylch eu gweithgareddau DPP. Galwodd yr ymatebwyr hyn am system o graffu allanol ar dystiolaeth er mwyn cynyddu sicrwydd. Roedd pryder penodol ynghylch gwytnwch y drafodaeth gyda chymheiriaid gan fod diffyg sicrwydd ansawdd dros gynnwys ac ansawdd y trafodaethau a'r dewis o gymar trafod. Cafwyd sylwadau hefyd bod cyflwyno adolygydd llewg yn lleihau gwytnwch y broses adolygu gan na fyddai ganddynt arbenigedd technegol ac y gallai hyn effeithio hefyd ar ansawdd yr adborth oedd â'r nod o helpu aelodau yn eu gwaith.
- 6.1.4. Roedd ymatebwyr hefyd yn pryderu a fyddai'n bosibl adnabod gwendidau mewn ymarfer, yn enwedig yn ystod camau cyntaf y broses. Nododd ymatebwyr y gallai fod yn bosibl i aelodau gofnodi cofnodion o ansawdd wael, eu cyflwyno, ac na fyddent yn cael eu dewis ar hap i gael eu hadolygu am flynyddoedd lawer. Roedd teimlad bod hyn yn cyfrannu at ddiffyg gwytnwch yn y broses o ddod o hyd i ymarfer gwael. Soniodd eraill bod addasrwydd i ymarfer yn dibynnau ar lawer iawn mwy na chyflwyno cofnodion yn unig.
- 6.1.5. Roedd cysylltiad rhwng hyn a phryder ehangach a ymddangosodd yn thema, sef diben y broses ail-ddilysu. Roedd teimladau cymysg ynghylch y lefel o sicrwydd y gallai'r broses ei darparu. Roedd rhai'n ystyried y gweithgareddau yn fecanwaith i ddatblygu, adfyfyrio ar a gwella eu hymarfer. Roedd eraill yn ystyried y broses yn ddull o asesu gallu gweithwyr fferyllol proffesiynol, yn debyg i'r ffordd y mae gofyn i feddygon fynd drwy broses ail-ddilysu ffurfiol. Cwestiynodd nifer o sefydliadau y term 'ail-ddilysu' gan eu bod yn teimlo bod hyn yn awgrymu gwerthusiad ffurfiol gan uwch swyddogion fferyllol. O ganlyniad, roedd y term yn awgrymu mwy o sicrwydd nag y gall y broses mewn gwirionedd ei darparu. Ategwyd hyn gan nifer o sylwadau gan unigolion, lle cwestiynwyd y lefel o sicrwydd gan na fyddai sgiliau a gwybodaeth yn cael eu hasesu'n ffurfiol. Roedd llawer o sefydliadau'n ystyried y newidiadau'n gam tuag at broses ail-ddilysu lawn, a gofynnodd rhai ymatebwyr am gyfathrebu'n gliriach yr hyn y mae'r cynllun i fod i'w ddarparu, o ran ei natur a'r sicrwydd a ddarperir.
- 6.1.6. Dywedodd ymatebwyr eu bod o'r farn bod y camau datblygu a pheilota yn cynyddu eu hyder y byddai'r cynigion yn helpu aelodau ac yn rhoi sicrwydd eu bod yn parhau i fod yn addas i ymarfer. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo nad oedd digon o dystiolaeth bod y cynigion yn rhoi mwy o sicrwydd na'r system bresennol, o ran eu chymorth i weithwyr fferyllol proffesiynol ac o ran diogelu'r cyhoedd.
- 6.1.7. Nododd rhai ymatebwyr bod y cynigion yn dal i ganolbwyntio gormod ar broses yn hytrach na gwella ymarfer a deilliannau cleifion. Cafwyd awgrymiadau ynghylch defnyddio'r broses yn well at y dibenion hyn, megis darparu tystiolaeth bod pob un o'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol wedi eu

cyrraedd. Awgrym arall oedd ymgorffori adborth ar berfformiad gan aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaethol a chan gleifion a defnyddwyr.

- 6.1.8. Thema a ddaeth i'r golwg o ran sicrwydd oedd hyblygrwydd y cynigion a'u haddasrwydd ar gyfer pob aelod. Roedd pryder ynghylch y ffaith mai'r un fyddai'r drefn i bawb, gyda rhai ymatebwyr yn nodi nad oedd y cynigion yn addas ar gyfer gweithwyr mewn swyddi uwch, megis goruchwylwyr a phrif fferyllwyr. Awgrymwyd bod angen fframwaith ail-ddilysu a sicrwydd gwahanol ar eu cyfer nhw i asesu eu priodoldeb a rhoi sicrwydd ynghylch eu cyfrifoldebau uwch. Roedd cryn adborth hefyd ynghylch gweithwyr nad oedden nhw'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r cyhoedd a nodwyd nad oedd y fframwaith yn addas ar eu cyfer nhw gan ei fod yn canolbwyntio ar ddeilliannau ar gyfer cleifion. Awgrymodd nifer fechan o ymatebwyr bod y cynigion yn llai addas ar gyfer technegwyr fferyllol oherwydd bod ganddynt rôl wahanol o fewn y tîm gofal iechyd. Nodwyd hefyd bod yn rhaid i'r fframwaith fod yn ddigon hyblyg i allu addasu ar gyfer rolau newydd sy'n datblygu o fewn fferylliaeth, yn enwedig o fewn ymarfer uwch.
- 6.1.9. Y thema olaf a ddaeth yn amlwg o ran sicrwydd oedd risg. Roedd pryder nad yw'r broses samplu ar hap yn mynd i'r afael â risgiau ac y gallai olygu bod ymarfer gwael yn mynd heb ei adnabod am flynyddoedd lawer. Roedd pryder hefyd nad oes gan y fframwaith fecanweithiau i adnabod ac ymateb i feysydd risg uchel nac i adnabod risgiau newydd sy'n dod i'r amlwg. Er bod nifer o ymatebwyr yn cytuno bod angen i aelodau fod yn gyfrifol am eu dysgu a'u datblygiad eu hunain, roedd rhai hefyd yn gofyn i hyn gael ei gydbwysu â meysydd sydd wedi eu nodi'n rhai risg uchel.

6.2. Rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr gwasanaethau fferyllol

- 6.2.1. Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent o'r farn bod y fframwaith ail-ddilysu at ei gilydd yn cyflawni'r nod o roi sicrwydd pellach i ddefnyddwyr gwasanaethau fferyllol.

	Unigolion	%	Sefydliadau	%
Ydw	1090	62%	54	79%
Nac ydw	670	38%	14	21%
Cyfanswm	1760		68	

- 6.2.2. Roedd 62% o'r unigolion a 79% o'r sefydliadau'n cytuno y byddai'r fframwaith ail-ddilysu yn cyflawni'r nod hwn. Mae'r ffigurau hyn dangos bod mwyafrif yr unigolion a'r sefydliadau'n cefnogi'r cynigion, ond mae hefyd yn dangos bod mwy ansicrwydd o ran gallu'r fframwaith i roi sicrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth, o'i gymharu â'r sicrwydd ynghylch addasrwydd cyffredinol i ymarfer (gweler 6.1 uchod). Soniwyd am nifer o'r un ffactorau ag yn 6.1 uchod o ran rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr, ond roedd nifer o faterion eraill yn codi hefyd yn ymwneud â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth.
- 6.2.3. Ymhlith y rhai oedd yn cytuno bod y fframwaith yn rhoi sicrwydd pellach, roedd cefnogaeth i'r drafodaeth gyda chymheiriaid gan y byddai hyn yn cynyddu hyder y cyhoedd gan y byddent yn gwybod bod gweithiwr proffesiynol arall wedi bod ynghlwm wrth adolygu ymarfer aelod. Roedd cydnabyddiaeth hefyd y byddai cynnwys defnyddwyr wrth ddatblygu'r fframwaith arfaethedig ac yn y gwaith o adolygu cofnodion yn cynyddu lefelau sicrwydd, drwy sicrhau bod anghenion a barn defnyddwyr yn cael eu cynrychioli. Dywedwyd bod y fframwaith yn cynyddu'r ymddiriedaeth rhwng gweithwyr fferyllol proffesiynol a defnyddwyr, ond roedd sylwadau hefyd yn nodi bod hyder cryf mewn fferylliaeth eisoes a bod rhagor o sicrwydd felly'n ddianghenraid.

6.2.4. Ymhlith y rhai nad oedden nhw'n cytuno, roedd llawer o sylwadau, yn enwedig gan unigolion, yn ymwneud â chanfyddiad y cyhoedd o'r proffesiwn ac o rôl y broses ail-ddilysu. Dywedodd ymatebwyr nad oedd y cyhoedd yn gyffredinol yn gwybod beth mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn ei wneud na pha rôl sydd ganddynt yn y gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedden nhw, felly, yn cwestiynu sut y gellid rhoi sicrwydd am hyn. Dywedodd ymatebwyr bod agen cynyddu ymwybyddiaeth o'r proffesiwn fferyllol. Roedd hefyd nifer o sylwadau yn nodi nad oedd y cyhoedd yn ymwybodol o'r anghenion DPP presennol ac na fyddai'r fframwaith newydd yn newid hyn. Ym marn yr ymatebwyr hyn ni fyddai'r fframwaith newydd yn cael unrhyw effaith ar ganfyddiad y cyhoedd ac ni fyddai felly yn cynyddu sicrwydd. Awgrymodd ymatebwyr bod rhoi sicrwydd pellach i ddefnyddwyr yn dibynnu ar ymglymu â'r cyhoedd, a chyfathrebu â nhw, ac y byddai angen hyrwyddo'r newidiadau'n effeithiol er mwyn iddyn nhw gyflawni eu nod a rhoi sicrwydd. Y materion hyn oedd wrth wraidd y lefelau is o gytundeb, yn hytrach na mwy o bryder ynghylch dilysrwydd neu effeithiolrwydd y cynigion o safbwynt defnyddwyr.

7. Effaith y dull newydd

Ffocws ail ran yr ymgynghoriad oedd effaith bosibl y dull newydd ar dri grŵp: pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, gweithwyr fferyllol proffesiynol a chyflogwyr. Gofynnwyd cwestiynau am yr effaith yr oedd disgwyl i'r newidiadau ei chael ar raddfa Likert bum pwynt, o 'cadarnhaol gan mwyaf' i 'negyddol gan mwyaf', a gofynnwyd hefyd am farn ar natur yr effaith.

7.1. Effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau fferyllol

	Unigolion	%	Sefydliadau	%
Dim effaith	687	39%	16	23%
Cadarnhaol gan mwyaf	640	36%	38	55%
Rhannol gadarnhaol	241	12%	12	17%
Cadarnhaol a negyddol	136	8%	3	4%
Rhannol negyddol	31	2%	-	N/A
Negyddol gan mwyaf	39	2%	-	N/A
Cyfanswm	1774		69	

7.1.1. Dywedodd 48% o'r unigolion a 72% o'r sefydliadau eu bod o'r farn y byddai'r newidiadau'n cael effaith gadarnhaol gan mwyaf ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Dywedodd yr ymatebwyr hyn bod y cynigion yn rhoi sicrwydd bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gwneud gweithgareddau cyson i ddiweddarau eu gwybodaeth a'u sgiliau a bod hyn o fudd i ddefnyddwyr. Yn yr un modd, roedd teimlad bod y ffocws ar y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gwreiddio proffesiynoldeb o fewn y ddarpariaeth ac y byddai'r angen i adfyfrio ar anghenion cleifion yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr drwy sicrhau bod cleifion yn ganolog i'r ddarpariaeth. Hefyd, byddai gwneud prosesau'n fwy uniongyrchol ac yn symlach yn caniatáu i weithwyr dreulio amser yn canolbwyntio ar ddeilliannau i gleifion. Roedd buddion eraill i ddefnyddwyr yn cynnwys ymarfer gwell, gwasanaethau gwell a chwnsela gwell. Nododd rhai na fyddai'r effaith i'w gweld yn syth, ond y byddai'r fframwaith yn gwella darpariaeth dros amser.

- 7.1.2. Ar y cyfan, roedd sefydliadau'n fwy cadarnhaol ynghylch yr effaith ar ddefnyddwyr nag oedd unigolion. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod cyfran uwch o unigolion a ymatebodd o'r farn na fyddai'r fframwaith newydd yn cael effaith ar ddefnyddwyr (39% o'r unigolion o'i gymharu â 23% o'r sefydliadau). Tynnodd y rhai nad oedden nhw'n credu y byddai effaith sylw at ddiffyg ymwybyddiaeth o'r hyn y mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn ei wneud ac o'r anghenion ail-ddilysu. Yn yr achosion hyn, roed y diffyg ymwybyddiaeth hwnnw'n golygu na fyddai defnyddwyr yn gweld unrhyw effaith o'r newidiadau. Nododd eraill bod gweithwyr fferyllol proffesiynol eisoes yn darparu gwasanaeth o safon uchel ac na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn newid hyn. Roedd yn amlwg yn y dadansoddiad bod ymatebwyr wedi dewis yr opsiwn 'dim effaith' pan oedden nhw'n teimlo nad oedd modd gwybod beth fyddai'r effaith. Gwnaed nifer o sylwadau gan unigolion a sefydliadau ei bod yn anodd gwybod beth fyddai ansawdd a maint yr effaith ac y byddai angen gwerthuso pellach i weld beth oedd yr effaith. Gwnaeth ymatebwyr gais am werthuso cyson i olrhain a darparu tystiolaeth o newidiadau ymarfer oedd o fudd i ddefnyddwyr.
- 7.1.3. Roedd nifer lai yn ystyried y byddai effaith gadarnhaol a negyddol ar ddefnyddwyr (8% o'r unigolion a 4% o'r sefydliadau) ac roedd nifer fechan iawn yn teimlo y byddai effaith gyffredinol y newidiadau'n rhannol neu'n gwbl negyddol. Roedd y sylwadau negyddol yn canolbwyntio ar bryderon y byddai'r amser fyddai ei angen i ateb y gofynion ail-ddilysu yn golygu y byddai llai o amser i dreulio ar ddarparu gwasanaethau, ac y byddai hyn felly yn gwaethygu safon y ddarpariaeth. Mae cysylltiad rhwng hyn a'r pryderon a fynegwyd ynghylch goblygiadau ar adnoddau, a dywedodd ymatebwyr eu bod eisoes dan bwysau a'u bod yn awyddus i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau yn hytrach na chwblhau a chofnodi DPP.

7.2. Effaith ar weithwyr fferyllol proffesiynol

	Unigolion	%	Sefydliadau	%
Dim effaith	74	4%	2	3%
Cadarnhaol gan mwyaf	686	39%	45	64%
Rhannol gadarnhaol	191	11%	8	11%
Cadarnhaol a negyddol	481	27%	9	13%
Rhannol negyddol	135	8%	3	4%
Negyddol gan mwyaf	205	12%	3	4%
Cyfanswm	1772		70	

- 7.2.1. Roedd 50% o'r unigolion a 75% o'r sefydliadau'n cytuno y byddai'r effaith yn gadarnhaol gan mwyaf neu'n rhannol gadarnhaol ar weithwyr fferyllol proffesiynol. Mae hyn ychydig yn uwch na'r nifer a nododd y byddai'r effaith ar ddefnyddwyr a chyflogwyr yn gadarnhaol. I'r gwrthwyneb, roedd 20% o'r unigolion ac 8% o'r sefydliadau yn teimlo mai effaith negyddol y cai'r newidiadau ar weithwyr fferyllol. Ychydig iawn o'r ymatebwyr a nododd na fyddai effaith o gwbl ar weithwyr fferyllol proffesiynol (4% o'r unigolion a 3% o'r sefydliadau) ac roedd nifer sylweddol o unigolion a sefydliadau yn ystyried y byddai effaith gadarnhaol a negyddol (27% ac 13%).

- 7.2.2. Nododd y rhai â gradd gadarnhaol y byddai nifer o fuddion i weithwyr fferyllol, gan gynnwys mwy o hyblygrwydd yn y dull cwblhau'r broses ail-ddilysu a pherthynas well gyda'u hymarfer penodol eu hunain. Byddai'r pwyslais ar adfyfrio'n galluogi gweithwyr fferyllol i adnabod meysydd i'w datblygu a byddai gwell adborth yn eu helpu i wella'u hymarfer. O ganlyniad, nododd rhai ymatebwyr y byddai'r fframwaith yn eu gwneud yn fwy ymwybodol o'u hymarfer eu hunain a'u hyder wrth eu gwaith, yn enwedig felly gyda'r rhai fyddai'n rhan o'r sampl. Nododd eraill y byddai'r broses fwy uniongyrchol o fudd i weithwyr fferyllol a bod yr anghenion newydd yn fwy ystyrllon. Nodwyd y byddai'r trafodaethau gyda chymheiriaid yn gwneud i weithwyr fferyllol deimlo'n llai ynysig, yn enwedig mewn grwpiau penodol o weithwyr, megis fferyllwyr cymunedol, locymau a gweithwyr nad ydyn nhw'n delio'n uniongyrchol gyda'r cyhoedd, megis rhai oedd yn gweithio fel ymgynghorwyr.
- 7.2.3. Roedd sylwadau negyddol mewn dau faes, rhai oedd yn gweld effaith negyddol ar y proffesiwn ar y cyfan a rhai oedd yn gweld effaith negyddol ar grwpiau penodol. Roedd y sylwadau negyddol cyffredinol yn adleisio'r sylwadau negyddol a nodwyd yn adran 6, gyda phwyslais arbennig ar y goblygiadau ar gyfer adnoddau a'r baich ychwanegol y gallai'r fframwaith newydd ei greu.
- 7.2.4. O ran grwpiau penodol, nododd ymatebwyr y byddai effaith negyddol ar unigolion a allai ei chael hi'n anodd ateb y gofynion. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys locymau, y gallai fod dod o hyd i gymar trafod addas yn heriol. Hefyd, gallai locymau ei chael hi'n anodd ddangos sut mae eu gwaith yn effeithio ar unigolion gan eu bod yn cyson newid y cleifion maen nhw'n gweithio gyda nhw, a'r lleoliadau a weithir ynddynt. Yn yr un modd, roedd pryderon am weithwyr nad ydyn nhw'n gweithio'n uniongyrchol gyda chleifion ac awgrym nad oedd y cynigion yn ddigon hyblyg i alluogi'r rheiny i gwblhau DPP oedd yn berthnasol i'w rôl. Ystyriwyd hefyd y byddai gweithwyr fferyllol proffesiynol mewn lleoliadau anghysbell dan anfantais oherwydd y trafodaethau gyda chymheiriaid. Codwyd cwestiynau hefyd ynghylch sut y byddai aelodau sy'n byw ac yn gweithio dramor yn gallu ateb y gofynion. Gofynnodd ymatebwyr m gyfarwyddyd pellach ar gyfer rhai mewn sectorau gwahanol a swyddi gwahanol, yn gymorth i'r aelodau hyn.
- 7.2.5. Nododd rhai ymatebwyr bod y cynigion yn gosod baich anghymesur ar weithwyr rhan amser drwy ofyn iddynt wneud yr un faint o weithgareddau DPP â gweithwyr llawn amser. Awgrymodd ymatebwyr eraill y byddai'r cynigion yn effeithio'n andwyol ar weithwyr fferyllol proffesiynol oedd yn ddi-waith, rhwng swyddi neu ar egwyl o'u gyrfa, gan y gallai cyflawni eu DPP fod yn heriol iddyn nhw, yn enwedig y drafodaeth gyda chymar trafod gan na fyddai ganddynt fynediad uniongyrchol i gymheiriaid. Gofynnwyd am fwy o eglurder a chyfarwyddyd ar gyfer sefyllfaoedd o'r fath. Roedd cysylltiad rhwng hyn a gofid mwy cyffredinol ynghylch eithriadau, gyda rhai yn awgrymu y dylid ymestyn y rhesymau dilys dros beidio â chyflwyno cofnodion i gynnwys cyfnodau o ddiweithdra, gwaith rhan amser a chyfrifoldebau gofalu neu rianta. Roedd rhai yn dadlau y byddai cyflwyno'n flynyddol yn effeithio mwy ar allu unigolion i ateb y gofynion, o'i gymharu â'r system bresennol. Dywedwyd bod diffyg eglurder cyffredinol yn perthyn i'r broses o benderfynu pa amgylchiadau fyddai'n caniatáu peidio â chyflwyno cofnodion, neu eu cyflwyno'n rhannol, pwy fyddai'n gymwys i wneud hynny, a beth fyddai'r amserlen ar eu cyfer. Gofynnwyd am gyfarwyddyd pellach.
- 7.2.6. Roedd pryder cyffredinol am y symudiad tuag at ddull mwy adfyfyriol a sut y byddai hyn yn effeithio ar rai nad oedden nhw wedi arfer ag adfyfrio ar eu gwaith. Nodwyd bod technegwyr fferyllol yn grŵp oedd heb lawer o brofiad o ymarfer adfyfyriol ac y byddai angen mwy o gefnogaeth a chyfarwyddyd arnyn nhw i ateb y gofynion. Awgrymodd rhai ymatebwyr hyd yn oed y dylai fod proses ail-ddilysu

wahanol ar gyfer gwahanol grwpiau o aelodau, gan fod eu llwybrau gyrfa'n wahanol. Gofynnod nifer fechan o sefydliadau am ragor o ymchwil i effaith bosibl y cynigion ar dechnegwyr fferyllol gan eu bod wedi eu tan-gynrychioli yn yr astudiaeth beilot. Cyfeiriwyd hefyd at fferyllwyr sydd tua diwedd eu gyrfa fel grŵp y gallai addasu at yr anghenion newydd fod yn anodd iddynt a dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn poeni y byddai rhai'n gadael y proffesiwn. Awgrymwyd y dylai fod mwy o gymorth a chanllawiau ar gael i'r aelodau hynny.

7.3. Effaith ar gyflogwyr

	Unigolion	%	Sefydliadau	%
Dim effaith	386	22%	7	10%
Cadarnhaol gan mwyaf	556	31%	29	42%
Rhannol gadarnhaol	186	10%	15	22%
Cadarnhaol a negyddol	393	22%	10	14%
Rhannol negyddol	138	8%	5	7%
Negyddol gan mwyaf	113	6%	3	4%
Cyfanswm	1772		69	

- 7.3.1. Disgrifiodd 41% o'r unigolion a 64% o'r sefydliadau yr effaith ar gyflogwyr fel un gadarnhaol gan mwyaf neu'n rhannol gadarnhaol. Roedd y rhesymau'n cynnwys y ffaith y byddai'r anghenion newydd yn rhoi mwy o sicrwydd i gyflogwyr bod eu cyflogaeth yn gwneud gweithgareddau DPP yn gyson a bod eu gwybodaeth a'u sgiliau'n cael eu diweddarau. Byddai gwelliannau mewn ymarfer a darpariaeth o fudd i gyflogwyr. Roedd awgrym hefyd y gallai cyflogwyr gysylltu'r anghenion ail-ddilysu, yn enwedig y trafodaethau gyda chymheiriaid, gyda'r gwaith o fonitro ansawdd yn fewnol ac i adnabod a mynd i'r afael â risgiau.
- 7.3.2. Fel yn achos y defnyddwyr, roedd rhai ymatebwyr o'r farn na fyddai effaith, neu nad oedd modd gwybod beth fyddai'r effaith (22% o'r unigolion a 10% o'r sefydliadau). Yn ôl yr unigolion, roedd hyn oherwydd bod DPP yn cael ei ystyried yn gyfrifoldeb ar unigolion ac mai yn ystod eu hamser eu hunain yr oedd y gweithgareddau'n digwydd. Yn ôl eraill, roedd hyn oherwydd nad oedd hi'n hysbys eto beth fyddai'r effaith ar gyflogwyr ac y byddai angen gwerthuso pellach.
- 7.3.3. Nododd 14% o'r unigolion ac 11% o'r sefydliadau eu bod yn ystyried y byddai effaith negyddol gan mwyaf neu rannol negyddol ar gyflogwyr. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y goblygiadau posibl ar gyfer adnoddau, megis yr amser ychwanegol fyddai ei angen ar unigolion i gwblhau, cofnodi a chyflwyno eu cofnodion. Pe bai cais am amser gwarchodedig ar gyfer DPP byddai gan weithwyr fferyllol lai o amser i'w dreulio ar eu dyletswyddau arferol ac efallai y byddai angen cyflogi staff cyflenwi, a byddai hyn yn costio. Roedd tipyn o bryder ynghylch y trafodaethau gyda chymheiriaid a sut y byddai hyn yn effeithio ar gyflogwyr. Gallai, o bosibl, olygu amser dau aelod staff a gallai felly gael effaith fawr ar adnoddau. Nododd ymatebwyr hefyd bod angen i gyflogwyr fod yn fwy o ran o'r broses a rhoi mwy o gymorth i weithwyr os oedd y system i weithredu'n effeithiol.

- 7.3.4. Roed nifer sylweddol yn ystyried y byddai effaith gadarnhaol a negyddol (22% o'r unigolion ac 14% o'r sefydliadau). Roedd y rhesymau a nodwyd dros hyn yn adleisio'r rhai a ddisgrifiwyd uchod, gydag ymatebwyr yn cytuno y byddai gwybod bod eu tîm yn cyson wella eu sgiliau o fudd i gyflogwyr ond y byddai'n rhaid iddynt fuddsoddi mwy o amser ac adnoddau mewn cymorth i'w tîm.

8. Effaith ar gydraddoldeb

8.1. Effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig

- 8.1.1. Rydym yn ymrwymedig i hybu cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a bod yn gynhwysol yn ein holl waith fel rheoleiddiwr, ac i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau o ran cydraddoldeb. Roedd cwestiwn olaf yr arolwg yn gofyn a fydd y cynigion yn effeithio ar unigolion neu grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

	Unigolion	%	Sefydliadau	%
Bydd	177	10%	10	15%
Na fydd	1567	90%	58	85%
Cyfanswm	1744		68	

- 8.1.2. Nododd lleiafrif bychan o'r unigolion (10%) a'r sefydliadau (15%) eu bod o'r farn y byddai'r cynigion yn effeithio ar grwpiau sy'n rhannu'r un nodweddion gwarchoddedig. Roedd y rhain yn cynnwys aelodau ag anghenion dysgu megis dyslecsia, ac aelodau ag anabledau y gallai fod ateb y gofynion yn y fformatau a nodwyd fod yn anodd iddynt. Dylid derbyn dulliau eraill o gofnodi a chyflwyno, ar lafar er enghraifft, a rhaid i ganllawiau a deunyddiau fod ar gael yn hawdd i bawb. Nododd nifer fechan o ymatebwyr y gallai'r cynigion effeithio'n negyddol ar rai oedd yn fwy tueddol o weithio'n rhan amser, megis menywod. Nododd nifer o ymatebwyr hefyd bod oedran yn ffactor, gan awgrymu y gallai aelodau hyn fod yn llai cyfarwydd â'r cysyniadau, ac felly'n llai tebygol o ymglymu â'r broses. Byddai angen darparu cymorth ychwanegol i'r unigolion hyn, pe baent o'r farn bod angen hynny. Yn olaf, dywedwyd bod angen mwy o eglurder ynghylch yr amserlen ar gyfer aelodau oedd ar gyfnod mamolaeth neu â sefyllfa iechyd hir dymor.

9. Ynghylch y rhai a atebodd fel unigolion

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau rhagarweiniol yn holi am wybodaeth ynghylch lleoliad cyffredinol ymatebwyr, ac ym mha rinwedd yr oedden nhw'n ymateb i'r arolwg. Ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, gofynnwyd cwestiynau pellach er mwyn gwybod a oeddent yn fferyllwyr, yn dechnegwyr fferyllol neu'n berthnigion fferyllfeydd, a ble roedden nhw'n gweithio fel arfer. Gofynnwyd y cwestiynau hyn er mwyn deall proffil yr ymatebwyr.

9.1. Lleoliad

	All	%
Lloegr	1487	85%
Yr Alban	156	9%
Cymru	69	4%
Gogledd Iwerddon	5	<1%
Arall	23	1%
Cyfanswm	1740	

9.1.1. Roedd dosbarthiad yr ymatebwyr unigol ar hyd Cymru, Lloegr a'r Alban yn debyg at ei gilydd i ddosbarthiad poblogaeth y DU.

9.2. Mathau o ymatebwyr

	All	%
Aelod o'r cyhoedd	11	1%
Gweithiwr fferyllol proffesiynol	1706	96%
Hyfforddai cyn-gofrestru dan hyfforddiant	34	2%
Myfyriwr	13	1%
Arall	21	1%
Cyfanswm	1785	

9.2.1. O ran mathau o ymatebwyr, roedd mwyafrif helaeth yr unigolion a ymatebodd yn eu disgrifio'u hunain fel gweithiwr fferyllol proffesiynol (96%).

9.3. Gweithwyr fferyllol proffesiynol: pa ran o'r gofrestr

	All	%
Fferylllydd	1253	72%
Technegydd fferyllol	440	25%
Perchennog fferyllfa	41	2%
Cyfanswm	1734	

9.3.1. Ymhlith y gweithwyr fferyllol proffesiynol, roedd canran yr ymatebwyr o bob grŵp debyg at ei gilydd i'r cyfanswm o aelodau cofrestredig. Roedd y nifer oedd yn eu disgrifio'u hunain fel perchennog

fferyllfeydd yn nodedig o fychan (2%). Roedd gan y grŵp hwn, fodd bynnag, ddewis o ymateb naill ai fel unigolion neu sefydliadau. Mae ymdriniaeth ar wahân o'r ymatebion gan sefydliadau.

9.4. Gweithwyr fferyllol proffesiynol: gweithle arferol

	All	%
Fferyllfa gymunedol	736	43%
Fferyllfa ysbyty	519	30%
Diwydiant fferyllol	52	3%
Hyfforddiant ac addysg fferyllol	77	5%
Sefydliad gofal sylfaenol	180	11%
Arall	143	8%
Cyfanswm	1707	

9.4.1. Nododd 43% o'r gweithwyr fferyllol proffesiynol a ymatebodd i'r arolwg mai fferyllfa gymunedol oedd eu gweithle arferol. Roedd 30% o'r ymatebwyr yn gweithio mewn fferyllfa ysbyty ac 11% mewn sefydliad gofal sylfaenol. Roedd y gweddill yn gweithio mewn lleoliadau eraill.

10. Cwestiynau monitro

10.1.1. Casglwyd data ynghylch nodweddion gwarchoddedig ymatebwyr, fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Defnyddiwyd ffurflen fonitro'r CFfC i gasglu'r wybodaeth hon, gan ddefnyddio categorïau wedi eu halinio gyda'r cyfrifiad, neu arfer dda arall (gyda'r monitro ar gyfeiriadedd rhywiol, er enghraifft). Ni wnaed cyswllt rhwng y cwestiynau monitro a chwestiynau'r ymgynghoriad. Fe'u gofynnwyd er mwyn deall proffil pobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad, ac i roi sicrwydd bod trawstoriad eang o'r boblogaeth wedi eu cynnwys yn yr ymgynghoriad. Mae asesiad effaith ar gydraddoldeb wedi ei gynnal ar wahân a bydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Atodiad 1: Sefydliadau

Bu'r sefydliadau canlynol yn rhan o'r ymgynghoriad drwy'r arolwg ar-lein, drwy e-bost neu mewn cyfarfodydd un wrth un:

Age UK

APTUK Yorkshire and Humber Branch

Association of Independent Healthcare Organisations (AIHO)

Association of Independent Pharmacies

Association of Pharmacy Technicians UK (APTUK)

Avon Local Pharmaceutical Committee

Bexley, Bromley and Greenwich Local Pharmaceutical Committee

Boots

Boots Pharmacists' Association

BPSA

Buchanhaven Pharmacy

Cambridge University Hospitals NHS Foundation Trust

Care Inspectorate

Care UK

Celesio UK

Central and North West London NHS Foundation Trust

Chief Pharmacists Group in Wales (CPGW)/ Grŵp Prif Fferyllwyr Cymru

City and Hackney LPC

Co Durham and Darlington Local Pharmaceutical Committee

Community Pharmacists Wales (CPW)/ Fferyllwyr Cymunedol Cymru

Community Pharmacy Scotland

Company Chemists' Association

Coventry LPC

Directors of Pharmacy Scotland

Dudley Taylor Pharmacies Ltd

East Sussex Local Pharmaceutical Committee

Education and Training Operational Sub-Group of the All Wales Chief Pharmacist Committee/ Is-grŵp Gweithredol Hyfforddiant ac Addysg Pwyllgor Prif Fferyllwyr Cymru Gyfan

Essex Partnership University NHS Foundation Trust
Everetts Pharmacy
General Medical Council (GMC)/ Cyngor Meddygol Cyffredinol
Guild of Healthcare Pharmacists
Health Education England - London and South East Pharmacy Workforce Group
Health Education England (HEE)
Health education England Thames Valley
Health Education London and South East Pharmacy Team
Healthwatch
Healthwatch Barnsley
Healthwatch Southend
Hertfordshire Local Pharmaceutical Committee
Hightown Pharmacy
Humber Local Pharmaceutical Committee
Kent Local Pharmaceutical Committee
King Edward VII Hospital
Lambeth Southwark and Lewisham LPC
Lindsay and Gilmour
Medacs Healthcare
Merton Sutton & Wandsworth Local Pharmaceutical Committee
National Association of Women Pharmacists
National Pharmacy Association/ Cymdeithas Fferyllol Genedlaethol
NHS Education for Scotland
NHS Highland Area Pharmaceutical Committee
NHS Pharmaceutical Technician Specialists Education and Training Group (TSET)
NHSE Specialist Pharmacy Service
NHSGGC Area Pharmaceutical Committee
North East and North Cumbria Clinical Pharmacy Network
Oxford Health NHS Foundation Trust
Patients Association
Pharmaceutical Services Negotiating Committee (PSNC)

Pharmacist Support

Pharmacists' Defence Association (PDA)

Pharmacy Forum NI (PSNI)

Pharmacy London

Primary and Community Healthcare Pharmacy Network (PCCPN)

Professional Standards Authority (PSA)/ Awdurdod Safonau Proffesiynol

Rowlands Pharmacy

Royal College of General Practitioners (RCGP)

Royal College of Surgeons and Physicians Glasgow (RCPSG)

Royal Pharmaceutical Society (RPS)/ Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr

RPS Consultant Pharmacist Group

RPS London North West Local Practice Forum

Scottish Health Council

Sheffield Children's NHS Foundation Trust

South Staffordshire Local Pharmaceutical Committee

STAR Medication Consultants Ltd

The Centre for Professional Development and Lifelong Learning, Keele University

The Royal Marsden NHS Trust

UK Clinical Pharmacy Association (UKCPA)

University Hospitals of Leicester

University of Manchester

Vida Rogers Ltd

Wales Centre for Pharmacy Professional Education, Cardiff University/ Canolfan Addysg Fferyllol Broffesiynol Cymru, Prifysgol Caerdydd

Weldricks Pharmacy

Welsh Pharmaceutical Committee/ Pwyllgor Fferylliaeth Cymru

Atodiad 2: Cwestiynau'r ymgynghoriad

Y fframwaith ail-ddilysu: proses

Mae'r fframwaith ail-ddilysu yn egluro ein cynigion ar gyfer gweithredu, cofnodi a chyflwyno cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'n ymdrin â'r meysydd canlynol:

- eich cofnodion – DPP wedi ei gofnodi, trafodaeth gyda chydweithiwr ac adroddiad adfyfyriol ysgrifenedig
- cyflwyno cofnodion i ni a'r hyn sy'n digwydd pan na fyddant yn cael eu cyflwyno neu os na ellir eu cyflwyno
- dewis cofnodion i'w hadolygu
- adolygu cofnodion a rhoi adborth
- sut byddwn yn gweithredu os na fodlonir y meini prawf adolygu

1. Oes gennych unrhyw sylwadau ar gamau'r broses a ddisgrifir yn y fframwaith?

Nod y fframwaith yw rhoi sicrwydd pellach i'r cyhoedd bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn diweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth gydol eu gyrfa a'u bod yn parhau i fod yn addas i ymarfer gydol eu gyrfa. Dyma'r newidiadau rydym yn eu cynnig:

- dull symlach o gofnodi DPP
 - cyflwyno trafodaeth gyda chydweithiwr, a
 - chyflwyno adroddiad adfyfyriol wedi ei seilio ar y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol
2. Ydych chi'n credu y bydd y newidiadau'n helpu aelodau yn eu gwaith ac yn rhoi sicrwydd bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn parhau'n addas i ymarfer?
 3. Oes gennych unrhyw sylwadau am y newidiadau rydym wedi eu cynnig?
 4. Ydych chi'n credu y bydd y fframwaith ail-ddilysu yn gyffredinol yn cyflawni'r nod o roi rhagor o sicrwydd i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol?
 5. Oes unrhyw beth arall, nad yw'n gynwysedig yn y fframwaith, a fyddai'n ddefnyddiol yn eich barn chi? Rhowch fanylion.

Y fframwaith ail-ddilysu: effaith

6. Pa effaith, yn eich barn chi, y bydd y cynigion yn ei chael ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol?
7. Pa effaith, yn eich barn chi, y bydd y cynigion yn ei chael ar weithwyr fferyllol proffesiynol?
8. Pa effaith, yn eich barn chi, y bydd y cynigion yn ei chael ar gyflogwyr fferyllol?
9. Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych am effaith bosibl y cynigion ar y grwpiau uchod.

Dadansoddiad cydraddoldeb

10. Ydych chi'n credu y gallai'r cynigion effeithio ar rai unigolion sy'n rhannu unrhyw rai o'r nodweddion gwarchoddedig? Os ydych, rhowch enghreifftiau.